Cyllid & Thollau EM

# Nodiadau: Partneriaeth (byr)

Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2021 i 5 Ebrill 2022 (2021–22)

## Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i lenwi tudalennau Partneriaeth (byr) eich Ffurflen Dreth

Bydd y nodiadau hyn yn eich helpu i lenwi eich Ffurflen Dreth. Byddai o gymorth hefyd petai gennych gopi o'r Ffurflen Dreth Partneriaeth, sy'n cynnwys crynodeb o'ch enillion ar y Datganiad Partneriaeth.

Llenwch dudalen Partneriaeth ar gyfer bob partneriaeth yr ydych yn aelod ohoni ac ar gyfer bob partneriaeth busnes. Pan ddaw mwy nag un datganiad partneriaeth i law o'r un bartneriaeth, mae'n rhaid i chi roi gwybod am bob datganiad partneriaeth ar dudalen partneriaeth ar wahân.

## Newid rhwng hunangyflogaeth a phartneriaeth

Peidiwch â llenwi blychau 3 a 4 os gwnaethoch newid o hunangyflogaeth i bartneriaeth, neu o bartneriaeth i hunangyflogaeth, rhwng 6 Ebrill 2021 a 5 Ebrill 2022.

Os oes unrhyw ran o'r cyfnod cyfrifyddu o fewn eich cyfnod sail, er mwyn cyfrifo eich elw neu golled llenwch y tudalennau 'Partneriaeth (byr)' gan ddefnyddio:

- manylion o'r Datganiad Partneriaeth
- blychau 9 i 32 ar y tudalennau 'Hunangyflogaeth (byr)' neu flychau 15 i 76 ar y tudalennau 'Hunangyflogaeth (llawn)'

Os nad oes unrhyw ran o'r cyfnod cyfrifyddu o fewn eich cyfnod sail, peidiwch â llenwi'r tudalennau 'Partneriaeth'.

### Eich enw a Chyfeirnod Unigryw y Trethdalwr

Os gwnaethoch argraffu copi o'r tudalennau 'Partneriaeth (byr)' o'r wefan, rhowch eich enw a Chyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) yn y blychau ar frig y ffurflen. Mae eich UTR ar y Datganiad Partneriaeth.

## Manylion y bartneriaeth

### Blwch 1  Cyfeirnod y bartneriaeth

Rhowch gyfeirnod treth y bartneriaeth yn y blwch. Os ydych yn bartner mewn partneriaeth dramor, rhowch eich UTR eich hun ym mlwch 1.

### Blwch 3  Os daethoch yn bartner ar ôl 5 Ebrill 2021, nodwch y dyddiad y gwnaethoch ymuno â'r bartneriaeth

Os daethoch yn bartner rhwng 6 Ebrill 2021 a 5 Ebrill 2022, rhowch y dyddiad y gwnaethoch ymuno ym mlwch 3. Os nad ydych eisoes wedi cofrestru fel partner ar gyfer Hunanasesiad a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 2, rhaid i chi wneud hynny nawr.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/cofrestru-ar-gyfer-a-chyflwynoch-ffurflen-dreth-hunanasesiad/cofrestru-os-ydych-yn-hunangyflogedig

### Blwch 4  Os gwnaethoch adael y bartneriaeth ar ôl 5 Ebrill 2021 a chyn 6 Ebrill 2022, nodwch y dyddiad y gadawsoch

Os gwnaethoch roi'r gorau i fod yn bartner cyn 6 Ebrill 2022, rhowch y dyddiad ym mlwch 4. Rhowch wybod i ni cyn gynted â phosib fel nad ydych yn talu gormod o dreth neu CYG Dosbarth 2.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/stop-being-self-employed

### Blwch 5  Y sail arian parod

Rhowch 'X' ym mlwch 5 os oes yna 'X' ym mlwch 3.9 y Ffurflen Dreth Partneriaeth.

> I gael rhagor o wybodaeth am sail arian parod, ewch i www.gov.uk/simpler-income-tax-cash-basis

## Eich cyfran chi o elw masnachu neu broffesiynol y bartneriaeth

I gael help i gyfrifo'ch elw trethadwy, i gyfrifo'ch cyfnod sail neu i gyfrifo'ch rhyddhad gorgyffwrdd, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS222'.

### Blychau 6 a 7  Cyfnod sail

Rydych yn talu treth ar yr elw ar gyfer eich cyfnod sail am y flwyddyn dreth. Pan rydych wedi bod mewn busnes am flwyddyn neu ddwy, daw eich cyfnod sail yn gyfnod cyfrifyddu. Ym mlwch 6 rhowch y dyddiad y cychwynnodd eich cyfnod sail ac ym mlwch 7 rhowch y dyddiad daeth i ben.

#### Os dechreuodd eich busnes rhwng 6 Ebrill 2021 a 5 Ebrill 2022

Mae eich cyfnod sail yn cychwyn ar y dyddiad y dechreuoch yn y busnes ac yn dod i ben ar 5 Ebrill 2022.

### Os dechreuodd eich busnes rhwng 6 Ebrill 2020 a 5 Ebrill 2021

Os yw'r dyddiad cyfrifyddu yn y cyfnod 6 Ebrill 2021 i 5 Ebrill 2022 yn:

- fwy na 12 mis ar ôl y dyddiad y dechreuodd eich busnes, eich cyfnod sail yw'r 12 mis hyd at y dyddiad cyfrifyddu hwnnw
- llai na 12 mis ar ôl y dyddiad y gwnaethoch ddechrau yn y busnes, eich cyfnod sail yw'r 12 mis sy'n cychwyn ar y dyddiad y dechreuoch

Os nad oes dyddiad cyfrifyddu yn ystod y cyfnod 6 Ebrill 2021 i 5 Ebrill 2022, eich cyfnod sail yw 6 Ebrill 2021 i 5 Ebrill 2022.

## Rhoi'r gorau i fusnes

### Os daeth eich busnes i ben rhwng 6 Ebrill 2021 a 5 Ebrill 2022

Mae eich cyfnod sail yn cychwyn ar y dyddiad y daeth eich cyfnod sail ar gyfer y flwyddyn dreth 2020 i 2021 i ben, ac mae'n dod i ben ar y diwrnod y daeth eich busnes i ben.

## Blychau 8 a 9 Eich cyfran chi o elw neu golled y bartneriaeth ac addasiad y cyfnod sail

Os yw eich cyfnod sail yr un fath â chyfnod cyfrifyddu'r bartneriaeth, copïwch y ffigur o flwch 11 neu 12 ar eich Datganiad Partneriaeth a rhowch hwn ym mlwch 8. Os gwnaethoch golled, rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll o flaen eich ffigur. Peidiwch â llenwi blwch 9.

Os nad yw eich cyfnod sail yr un fath â chyfnod cyfrifyddu'r bartneriaeth, byddwch angen cyfrifo'r elw neu'r golled ar gyfer y flwyddyn dreth 2021 i 2022. Copïwch y ffigur o flwch 11 neu 12 eich Datganiad Partneriaeth a'i roi ym mlwch 8. Bydd yn rhaid i chi hefyd roi'r addasiad ym mlwch 9.

Os oes anghydfod ynghylch eich cyfran chi o elw neu golled y bartneriaeth, dylech barhau i'w chopïo i flwch 8 a gwneud atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd er mwyn pennu'r ffigur terfynol i'w ddefnyddio.

Rhaid i chi hefyd roi gwybod i'r partner enwebedig (y partner sydd wedi'i enwebu gan y bartneriaeth i gyflwyno Ffurflen Dreth y Bartneriaeth) a CThEM eich bod wedi gwneud y cais hwn i'r tribiwnlys.

Awgryma CThEM, cyn i chi wneud atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd eich bod yn ceisio datrys y mater drwy gysylltu â'r partner enwebedig sy'n gyfrifol am lenwi'r datganiad partneriaeth.

> ℹ I gael rhagor o help wrth gyfrifo'ch elw trethadwy a'ch addasiadau, ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS222'.

> **Enghraifft**
>
> Mae Iestyn a Siân wedi bod yn bartneriaid am 5 mlynedd ac maent yn paratoi cyfrifon eu partneriaeth hyd at 30 Medi bob blwyddyn.
>
> Ymunodd Emyr â'r bartneriaeth ar 1 Gorffennaf 2021. Ei gyfran ef o elw'r bartneriaeth yw:
>
> - y cyfnod hyd at 30 Medi 2021 £15,000
> - y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Medi 2022 £60,000
>
> Cyfnod sail Emyr ar gyfer y flwyddyn dreth 2021 i 2022 yw 1 Gorffennaf 2021 i 5 Ebrill 2022. Mae'n cyfrifo ei elw fel a ganlyn:
>
> - 1 Gorffennaf 2021 i 30 Medi 2021 £15,000
> - 1 Hydref 2021 i 5 Ebrill 2022 (6/12 x £60,000) £30,000
>
> Bydd Emyr yn rhoi £15,000 ym mlwch 8 a £30,000 ym mlwch 9.

Os ydych yn cynnwys ffigurau dros dro, rhowch 'X' ym mlwch 20 ar dudalen TR 8 eich Ffurflen Dreth. Rhowch wybod i ni o dan 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen TR 7 pam eich bod wedi defnyddio symiau dros dro a phryd yr ydych yn disgwyl rhoi'r ffigurau terfynol i ni.

## Blwch 9.1 Grant y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth a gafwyd yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2022

Os cawsoch unrhyw grantiau drwy'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth (SEISS), dylech gynnwys ym mlwch 9.1 y swm roedd gennych hawl iddo yn unig.

Os gwnaeth y partneriaid gytuno bod yn rhaid i chi roi cyfrif am daliad a gawsoch drwy SEISS i'r bartneriaeth, peidiwch â chynnwys y swm hwnnw yma. Caiff eich cyfran o'r taliad hwnnw ei chynnwys yn y swm a nodir ym mlwch 8 (o flwch 11 neu flwch 12 ar eich Datganiad Partneriaeth).

Os ydych wedi cael asesiad oddi wrth swyddog CThEM mewn perthynas â grant SEISS a hawliwyd yn anghywir, dylech gynnwys ym mlwch 9.1 y swm a gadwyd gennych yn unig.

Peidiwch â chynnwys ym mlwch 9.1 unrhyw swm sydd wedi'i asesu ac sy'n arwain at ad-dalu grant SEISS nad oedd gennych hawl iddo.

Dylech gynnwys ym mlwch 9.1 y swm roedd gennych hawl iddo, ni waeth beth yw dyddiadau cau eich llyfrau neu'ch cyfrifon (ym mlychau 6 a 7).

Os yw'r swm roedd gennych hawl iddo ac roeddech wedi'i gael yn ymwneud â phartneriaethau lluosog, neu'n ymwneud â'r bartneriaeth hon ac un neu fwy o hunangyflogaethau, dylech gynnwys y swm sy'n ymwneud â'r bartneriaeth hon yn unig.

Dosrannwch y taliad rhwng y partneriaethau, neu rhwng y bartneriaeth hon ac unrhyw hunangyflogaethau, ar sail deg a rhesymol. Dylai cyfanswm yr holl symiau a ddosrannwyd fod yn gyfartal â chyfanswm y grant SEISS roedd gennych hawl iddo ac roeddech wedi'i gael.

**Enghraifft**

Mae Sam yn bartner mewn partneriaeth ac mae hefyd yn driniwr gwallt hunangyflogedig. Mae hi'n cael grant SEISS o £4,000, ac yn pennu bod 75% ohono'n ymwneud â'r bartneriaeth hon. Mae'n cynnwys £3,000 ym mlwch 9.1, a £1,000 yn y blwch SEISS ar y dudalen 'Hunangyflogaeth'.

Os cawsoch grant SEISS nad oedd gennych hawl iddo, a'ch bod heb ei ad-dalu'n wirfoddol i CThEM neu'ch bod heb gael asesiad oddi wrth swyddog CThEM mewn perthynas â'r taliad a hawliwyd yn anghywir, nodwch y swm a hawliwyd yn anghywir ar dudalen TR 5 y brif Ffurflen Dreth (SA100).

### Blwch 10 Addasiad ar gyfer newid arfer cyfrifyddu

Copïwch y ffigur o flwch 11A ar y Datganiad Partneriaeth. Mae addasiad ar adael y sail arian parod wedi'i rannu ar draws 6 blwyddyn dreth; codir treth ar un rhan o chwech o'r incwm addasiad bob blwyddyn. Gallwch ddewis cyflwyno'r tâl treth ar yr incwm addasiad hwn.

### Blwch 11 Addasiad cyfartalu

Os yw eich hawliad cyfartalu yn newid eich elw, rhowch swm y newid ym mlwch 11. Os yw'r hawliad yn gostwng eich elw trethadwy, rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll.

ℹ I gael gwybodaeth am ffermwyr a garddwyr masnachol, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS224'.

### Blwch 12 Treth dramor a hawlir fel didyniad

Gallwch hawlio ar gyfer y dreth dramor rydych eisoes wedi'i thalu ar eich incwm cyn belled nad ydych yn hawlio Rhyddhad Credyd Treth Dramor. Ni allwch hawlio'r ddau.

ℹ I gael rhagor o wybodaeth am Ryddhad Treth Credyd Dramor, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS263'.

### Blwch 13 Rhyddhad gorgyffwrdd a ddefnyddiwyd y flwyddyn hon

Gallwch hawlio rhyddhad gorgyffwrdd os oes gennych elw gorgyffwrdd ac yn y flwyddyn dreth 2021 i 2022:

- gwnaethoch beidio â bod yn bartner
- gwerthwyd neu caewyd y bartneriaeth
- newidiwyd dyddiad cyfrifyddu'r bartneriaeth a nawr mae eich cyfnod sail yn fwy na 12 mis

### Blwch 14 Elw gorgyffwrdd a gariwyd ymlaen

Dyma unrhyw elw gorgyffwrdd sydd gennych o flynyddoedd cynharach yn ogystal ag unrhyw elw gorgyffwrdd yn y flwyddyn dreth 2021 i 2022, llai unrhyw ryddhad rydych wedi'i ddefnyddio'r flwyddyn hon.

### Blwch 16 Elw wedi'i addasu ar gyfer 2021–22

Defnyddiwch y daflen waith ar dudalen SPN 5 y nodiadau hyn er mwyn cyfrifo eich elw wedi'i addasu. Os ydych wedi gwneud colled, rhowch '0' ym mlwch 16 a rhowch swm y golled ym mlwch 21.

### Blwch 17 Colledion a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach a wrthbwyswyd yn erbyn elw'r flwyddyn hon

Os gwnaethoch golled yn y flwyddyn dreth 2020 i 2021 neu mewn blynyddoedd dreth gynharach, rhowch y swm ym mlwch 17. Rhaid i hwn beidio â bod yn fwy na'r swm ym mlwch 16.

### Blwch 18 Elw trethadwy ar ôl dwyn colledion ymlaen

Defnyddiwch y daflen waith ar dudalen SPN 5 y nodiadau hyn er mwyn cyfrifo'r elw trethadwy. Os oedd gennych elw, rhowch y ffigur sydd ym mlwch K ym mlwch 18.

### Blwch 19 Unrhyw incwm arall y busnes nas cynhwyswyd yng nghyfrifon y bartneriaeth

Dyma incwm sydd wedi'i dalu i chi, nid i'r bartneriaeth, megis incwm proffesiynol a gafwyd mewn rhinwedd bersonol. Gall hyn gynnwys taliadau cynllun cymorth coronafeirws a gawsoch fel unigolyn, megis taliadau cynllun cymorth yn sgil hunanynysu.

Peidiwch â chynnwys taliadau drwy'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth yn y blwch hwn (gweler blwch 9.1).

ℹ I gael gwybodaeth am y cynlluniau cymorth yn sgil coronafeirws, ewch i www.gov.uk/guidance/reporting-coronavirus-covid-19-grants-and-support-payments.cy

### Blwch 20 Eich cyfran chi o gyfanswm elw trethadwy o fusnes y bartneriaeth ar gyfer 2021–22

Defnyddiwch y daflen waith ar dudalen SPN 5 y nodiadau hyn er mwyn cyfrifo eich cyfran chi o gyfanswm yr elw trethadwy. Os gwnaethoch elw, rhowch y ffigur sydd ym mlwch M ym mlwch 20.

## Eich cyfran chi o golledion masnachu neu broffesiynol y bartneriaeth

Mae'n bosibl y gallwch hawlio rhyddhad treth ar gyfer eich cyfran chi o unrhyw golledion y bartneriaeth.

Os ydych eisoes wedi gwneud hawliad ar gyfer eich colled yn y flwyddyn dreth 2021 i 2022 dylech gynnwys y golled ym mlychau 22 i 24 a rhoi'r manylion i ni o dan 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

> ℹ I gael gwybodaeth am golledion, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS227'.

### Blwch 21 Colled wedi'i haddasu ar gyfer 2021–22

Defnyddiwch y daflen waith ar dudalen SPN 5 y nodiadau hyn er mwyn cyfrifo a oedd gennych golled wedi'i haddasu ar gyfer y flwyddyn dreth 2021 i 2022.

### Blwch 22 Colled o'r flwyddyn dreth hon a wrthbwyswyd yn erbyn incwm arall ar gyfer 2021–22

Dylech roi colled ar gyfer y flwyddyn dreth hon yn unig ym mlwch 22. Mae swm y rhyddhad treth gallwch ei hawlio yn erbyn cyfanswm eich incwm bob blwyddyn wedi'i gyfyngu i'r swm sydd fwyaf, naill ai £50,000 neu 25% o gyfanswm eich incwm wedi'i addasu.

Os yw'r golled yn fwy na'ch incwm (neu os yw'ch incwm yn ddim), rhowch swm eich incwm (neu ddim) ym mlwch 22. Gallwch hawlio balans eich colled yn erbyn unrhyw enillion cyfalaf ar gyfer y flwyddyn dreth 2021 i 2022 neu llenwch flwch 23 neu flwch 24.

Y dyddiad cau ar gyfer hawlio yw 31 Ionawr 2024. Peidiwch â llenwi'r blwch hwn os ydych yn defnyddio'r sail arian parod.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am y terfyn ar Ryddhad Treth Incwm,ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS204'.

### Box 23 Colled i'w chario'n ôl i flwyddyn flaenorol/flynyddoedd blaenorol a'i gwrthbwyso yn erbyn incwm (neu enillion cyfalaf)

Gallwch gario colledion yn ôl i'w defnyddio yn erbyn:

- incwm ar gyfer y flwyddyn dreth 2020 i 2021 – os yw eich colled yn fwy na'ch incwm gallwch ddefnyddio'r golled sy'n weddill yn erbyn enillion cyfalaf y flwyddyn dreth 2020 i 2021. Peidiwch â gwneud yr hawliad hwn os ydych yn defnyddio'r sail arian parod
- incwm y 3 blwyddyn dreth flaenorol – dechreuwch gyda'r flwyddyn gynharaf – dylech wneud yr hawliad hwn dim ond os dechreuodd eich busnes ar ôl 5 Ebrill 2018. Peidiwch â gwneud yr hawliad hwn os ydych yn defnyddio'r sail arian parod
- elw'r busnes hwn yn ystod blwyddyn dreth 2021 i 2022 a'r 3 blwyddyn dreth flaenorol – dechreuwch gyda'r flwyddyn ddiweddaraf – dylech wneud yr hawliad hwn dim ond os daeth eich busnes i ben yn ystod blwyddyn dreth 2021 i 2022. Mae'ch hawliad ar gyfer y colledion yn ystod 12 mis olaf y busnes (rhyddhad colled terfynol)
- elw'r un busnes yn y 3 blwyddyn flaenorol – mae cyfanswm y golled y gellir ei gario yn ôl i flynyddoedd treth 2019 i 20220 a 2018 i 2019 wedi'i gyfyngu i gyfanswm o £2 miliwn ar draws y ddwy flwyddyn dreth (nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol ar gyfer y flwyddyn dreth 2020 i 2021); dechreuwch gyda'r flwyddyn ddiweddaraf

Bydd angen i chi hefyd roi manylion i ni o'r swm a hawliwyd ar gyfer pob blwyddyn o dan 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

Os defnyddiwch y sail arian parod gallwch ond hawlio ar gyfer rhyddhad colled terfynol.

Y dyddiad cau ar gyfer hawlio yw 31 Ionawr 2024.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am golledion terfynol, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS222'.

### Blwch 24 Cyfanswm y golled i'w chario ymlaen ar ôl gwrthbwysiadau eraill

Gallwch gario eich colled ymlaen er mwyn ei gwrthbwyso yn erbyn unrhyw elw o'r un busnes yn y dyfodol. Os oedd gennych unrhyw golledion o flynyddoedd cynharach nad ydych wedi'u defnyddio eto, dylech eu cynnwys ym mlwch 24.

Y dyddiad cau ar gyfer hawlio yw 5 Ebrill 2026.

## Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 a Dosbarth 4

### Blwch 25 Rhowch 'X' yn y blwch os yw cyfanswm eich elw ar gyfer 2021 i 2022 yn llai na £6,515 ac rydych yn dewis talu CYG Dosbarth 2 yn wirfoddol

Os yw eich elw trethadwy yn £6,515 neu fwy, rydych yn talu CYG Dosbarth 2 (£3.05 yr wythnos). Os yw eich elw yn is na £6,515 neu os wnaethoch golled, gallwch dalu CYG Dosbarth 2 yn wirfoddol er mwyn gwarchod eich Pensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau penodol. Mae'n rhaid i chi eisoes fod wedi eich cofrestru fel partner ar gyfer hunanasesiad a CYG Dosbarth 2 er mwyn gwneud hyn.

Os ydych wedi eich cofrestru ar gyfer Hunanasesiad ond ddim wedi eich cofrestru'n hunangyflogedig, ewch i www.gov.uk/cofrestru-ar-gyfer-a-chyflwynoch-ffurflen-dreth-hunanasesiad/hunangyflogedig

Os ydych wedi eich cyflogi ac yn hunangyflogedig, efallai gallwch dalu swm llai o CYG Dosbarth 2 yn ddibynnol ar swm yr Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 rydych yn talu o'ch cyflog. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/yswiriant-gwladol/faint-rydych-chin-talu

Rhowch 'X' ym mlwch 25 os ydych am dalu CYG Dosbarth 2 yn wirfoddol. Ni allwch newid eich meddwl ar ôl i chi dalu.

Ni allwch dalu CYG Dosbarth 2 yn wirfoddol drwy Hunanasesiad ar ôl 31 Ionawr 2023.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/voluntary-national-insurance-contributions

### Blwch 26  Os ydych wedi eich eithrio rhag talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4

Nid oes angen i chi dalu CYG Dosbarth 4 os yw'r canlynol yn berthnasol:

- gwnaethoch gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2021
- roeddech o dan 16 oed ar 6 Ebrill 2021
- nid oeddech yn preswylio yn y DU at ddibenion treth yn ystod blwyddyn dreth 2021 i 2022

Dylech roi 'X' ym mlwch 26 dim ond os ydych wedi eich eithrio.

I gael gwybod beth yw'ch oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ewch i www.gov.uk/calculate-state-pension

### Blwch 27  Addasiad i elw sy'n agored i gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4

Gall rhai addasiadau ostwng swm y cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 y mae'n rhaid i chi ei dalu. Rhowch ym mlwch 27 swm unrhyw:

- addasiadau ar y sail arian parod
- colledion o flynyddoedd cynharach
- enillion cyflogaeth wedi'u cynnwys yn eich elw
- incwm sy'n cael ei ddiystyru at ddibenion CYG Dosbarth 4, megis cael taliadau cymorth yn sgil hunanynysu oherwydd coronafeirws

I gael rhagor o wybodaeth am addasiadau cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS220'.

I gael rhagor o wybodaeth am daliadau cymorth yn sgil hunanynysu, ewch i www.gov.uk/guidance/how-to-reportself-isolation-support-payments

## Eich cyfran chi o'r dreth a dalwyd a didyniadau gan y bartneriaeth

### Blychau 30 a 31

Defnyddiwch eich Datganiad Partneriaeth a chopïwch:

- y ffigur ym mlwch 24 i flwch 30
- y ffigur ym mlwch 24A i flwch 31

## Rhagor o gymorth os bydd ei angen arnoch

I gael copïau o unrhyw Ffurflenni Treth neu daflenni cymorth, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-a-thaflenni-hunanasesiad

Gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900 i gael help gyda'ch Ffurflen Dreth.

### Taflen waith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Elw neu golled blwch 8 (nodwch golled fel ffigur negatif) | | | A | £ |
| **Ychwanegu** Addasiad positif blwch 9 | | | B | £ |
| Grant SEISS blwch 9.1 | | | BB | £ |
| **Cyfanswm** A + B + BB | | | C | £ |
| **Llai** Addasiad negatif blwch 9 | £ | | | |
| Treth dramor blwch 12 | £ | | | |
| Rhyddhad Gorgyffwrdd blwch 13 | £ | = | D | £ |
| **Cyfanswm** blwch C llai blwch D | | | E | £ |

#### Os yw blwch E yn bositif

| | | |
|---|---|---|
| Blwch 10 | F | £ |
| **Ychwanegu** Addasiad positif blwch 11 | G | £ |
| **Neu llai** Addasiad negatif blwch 11 | H | £ |
| **Elw wedi'i addasu** - copïwch i flwch 16 (ychwanegwch flychau E ac F ynghyd â blwch G neu llai blwch H) | I | £ |
| **Llai** Blwch 17 - hyd at y swm ym mlwch I | J | £ |
| **Cyfanswm** blwch I llai blwch J | K | £ |
| **Ychwanegu** Blwch 19 | L | £ |
| **Cyfanswm** - copïwch i flwch 20 (ychwanegwch flychau K ac L) | M | £ |

#### Os yw'r swm ym mlwch E yn golled neu'n sero

Copïwch y swm ym mlwch E i flwch 21 fel ffigur positif. Peidiwch â chynnwys yr arwydd minws ym mlwch 21.

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys arweiniad mewn Braille, ar dâp sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Ffoniwch ein llinellau cymorth am fwy o wybodaeth.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar yr hawl i apelio.